**ELL 19-01(p.3)**

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Adolygiad Polisi - Yr Iaith Gymraeg Mewn Addysg: Cynnig Drafft**

**Sylwadau Rhagarweiniol**

Awgrymir fod yr Adolygiad Polisi - Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg yn cael ei gynnal yng nghyd-destun yr egwyddor sylfaenol canlynol:

• y dylai'r cyfle i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg fod ar gael ibob plentyn a myfyriwr/myfyrwraig yng Nghymru

Ymddengys fod dau brif ddimensiwn i'r egwyddor hon:

> ceisio gwella cymhwysedd ieithyddol siaradwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd

> hybu ymwybyddiaeth o sut y gall dwyieithrwydd gyfrannu tuag at godi safonau cyrhaeddiad ar lefel ehangach

Mae dau fater arall i'w hystyried yn y cyswllt hwn:

Mynediad siaradwyr i fanteision economaidd dwyieithrwydd a'r manteision o ran caffael swyddi

Sgiliau dwyieithog fel modd o hyrwyddo amlieithedd

Bernir fod yr ystyriaethau hyn wrth wraidd gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol o

- feithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol Cymru

a hefyd y weledigaeth o Gymru sydd yn:

- ffynnu, yn addysgedig, yn fedrus ... ac yn ddiwylliannol gyfoethog

**Ystyriaethau allweddol**

Bwriedir i'r Adolygiad ddangos ymwybyddiaeth gyson o'r canlynol:

- Dealltwriaeth glir o'r hyn a olygir gan y weledigaeth o 'Gymru ddwyieithog', a gwerthusiad o oblygiadau'r dehongliad hwn o ran hawliau ieithyddol yr unigolyn a hawliau grwpiau o siaradwyr

- Ymagwedd newydd sy'n herio'r ddeuoliaeth 'Cymraeg fel cyfrwng/ Cymraeg fel pwnc' (neu 'Cymraeg fel cyfrwng/ Saesneg fel cyfrwng'), a'r posibiliadau sydd ynghlwm â defnyddio'r ddwy iaith fel cyfrwng

- Arwyddocâd **dilyniant yn y ddarpariaeth** o ran sicrhau fod siaradwyr yn caffael y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r ddwy iaith (nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac o'r ysgol uwchradd i addysg ôl-16)

- Yn gysylltiedig â hyn mae'r cysyniad o **gontinuum** sy'n galluogi disgyblion/ myfyrwyr i wella eu cymhwysedd ieithyddol a gwneud cynnydd wrth symud o un cam addysgol i'r nesaf

- **Mynediad** i addysg ddwyieithog, gyda sylw penodol i Anghenion Addysgol Arbennig a Dysgu Gydol Oes

- Y berthynas rhwng iaith ac addysg, ar yr un llaw, a **iaith o fewn y teulu ac yn y gymuned** ar y llaw arall. Ni ellir ystyried cefnogi dwyieithrwydd o fewn fframwaith sefydliadol heb ystyried y darlun ehangach. Dylid, felly, gadw mewn cof y ffactorau sydd yn dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol yng nghyd-destun y cartref, y gymuned a sefyllfaoedd anffurfiol eraill (yn cynnwys trosglwyddo ieithyddol o un genhedlaeth i'r nesaf).

**Meysydd penodol**

Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, bernir fod y meysydd canlynol yn haeddu sylw penodol. Nodir agweddau sydd o ddiddordeb arbennig.

**Addysg Cyn-ysgol**

- Cyllido a marchnata'r ddarpariaeth a gynigir gan y *Mudiad Ysgolion Meithrin*
- Mesurau i fonitro datblygiad ieithyddol plant sydd yn mynychu'r *Cylchoedd Meithrin*
- Rôl rhieni yn y broses o gyfoethogi'r ddarpariaeth
- Darpariaeth ddwyieithog: canolfannau ar wahân i'r *Mudiad Ysgolion Meithrin* (meithrinfeydd sy'n cynnig gofal drwy'r dydd, ysgolion meithrin eraill)
- Goblygiadau darpariaeth feithrin (yn y Gymraeg a'r Saesneg) mewn unedau meithrin a gynhelir gan y wladwriaeth, yn arbennig o ran plant teirblwydd oed

**Diffyg dilyniant rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, a rhwng addysg uwchradd ac addysg ôl-16**

- Rôl rhieni yn y broses o gyfoethogi'r ddarpariaeth/ gwneud dewisiadau

**Hyfforddiant galwedigaethol**

- Cyrsiau cyfrwng Cymraeg a chaffael sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg

- Achredu ac arholi cyrsiau galwedigaethol
- Partneriaethau gyda busnes

**Gyrfaoedd**

- Pennu dulliau o ledaenu gwybodaeth am yrfaoedd sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog
- Priodoldeb lefelau hyfedredd dwyieithog a adwaenir ac a reolir yn genedlaethol

**Ol-16, yn cynnwys Cymraeg i Oedolion ac Addysg Gydol Oes**

- Galwedigaethol (gweler uchod)
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch
- Cymraeg i Oedolion:

  Cymraeg yn y gweithle

  Niferoedd sy’n methu â chwblhau
- Cydlynu cynllunio ar raddfa genedlaethol

**Anghenion Addysgol Arbennig**

- Sylw i’r prinder arbenigwyr sydd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (e.e.therapyddion lleferydd)

**Adnoddau a Deunyddiau Dysgu ac Addysgu**

- Strategaeth i adnabod ac ymateb i anghenion ar raddfa genedlaethol
- Integreiddio'r amrywiaeth o gyrff comisiynu yng Nghymru?

**Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol**

- Recriwtio i'r proffesiwn (gweler isod hefyd): mesurau i fynd i'r afael â'r prinder o athrawon sydd â'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (cynradd, uwchradd, Addysg Bellach ac Addysg Uwch)
- Pwyslais ar fethodoleg dwyieithrwydd a'r her/ oblygiadau o addysgu'n ddwyieithog
- Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau newydd mewn methodoleg dysgu iaith (yn cynnwys Addysg Oedolion)

**Ymchwil, Data a Gwerthuso**

- Cytuno ar sut yn union y dylid disgrifio a diffinio'r amryw fathau o ddarpariaeth sydd ar gael (e.e. Categori A, trochi ac ati)
- Data dibynadwy ac o ansawdd uchel ynghylch darpariaeth, nifer disgyblion sydd yn dewis y ddarpariaeth honno, dilyniant ac ati
- Cymhwyso'r uchod o ran gorolwg strategol, cynllunio a recriwtio a hyfforddi staff i gwrdd â'r galw
- Hyrwyddo ysgolheictod wrth werthuso data ac ymchwilio

**TGC/ Y Dechnoleg Newydd**

- Rôl yn y broses o gyfoethogi proffil y Gymraeg o ran statws/ normaleiddio
- Defnydd yn y meysydd canlynol:

deunyddiau addysgu a dysgu

mynediad i wybodaeth i athrawon ynghylch cyfleoedd yn eu maes

dysgu o bell (yn cynnwys cynadledda trwy gyfrwng fideo), yn arbennig mewn addysg ôl-16 ac addysg i oedolion

**Cyfleoedd o ran Partneriaethau a Chydweithio Rhyngwladol**

Perthnasol i bob cyfnod addysg

Adnabod achosion sydd yn cynnig cymariaethau priodol. Yn cynnwys:

- addysgu iaith a methodoleg dysgu'n ddwyieithog
- hyfforddi athrawon
- marchnata dwyieithrwydd

**Materion yn ymwneud â chorpws yr iaith**

- Monitro datblygiad ieithyddol
- Ymwybyddiaeth o gywirdeb ieithyddol; mesurau i wella cymhwysedd disgyblion/ myfyrwyr a chyfoethogi eu defnydd ieithyddol
- Adnabod anghenion o ran safoni termau

**Sylwadau**

Dylid nodi fod y cynigion hyn, a gyflwynir yma ar gynllun drafft, wedi eu pennu yn rhannol ar sail tystiolaeth a dderbyniwyd eisoes gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac yn rhannol ar sail dadansoddiad o'r prif faterion sy'n nodweddu'r maes.

Hyderir y bydd gosod y materion hyn gerbron y Pwyllgor yn fodd i ddiffinio hyd a lled yr Adolygiad yn fanylach. Bwriedir hefyd i'r materion a'r meysydd sydd wedi eu pennu hyd yma gael eu cyflwyno gerbron cyrff ac unigolion perthnasol cyn bwrw 'mlaen i ymgynghori'n ehangach. Trwy wneud hyn yr amcan fydd sicrhau fod yr Adolygiad yn cael ei gynnal o fewn fframwaith cydlynus, a bod ffocws pendant i'r broses o bennu rhestr o'r rhai y dylid ymgynghori â hwy.